Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Rofft

**Lôn Wynnstay**
**Merffordd**
**Wrecsam**
**LL12 8LA**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2010**

**gan**

**Stephen Dennett**

**Dan Gytundeb ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Y Rofft wedi ei lleoli ym mhentref Merffordd ar gyrion Wrecsam. Daw'r mwyafrif o'r disgyblion o'r pentref ac mae amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd y pentref yn gymharol freintiedig. Adeg yr arolygiad, roedd 263 o ddysgwyr ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys 26 o blant yn yr adran feithrin. Mae gan tua 7% o'r dysgwyr yr hawl i brydau ysgol am ddim, sydd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r awdurdod lleol (ALl) yn gofalu am lai nag 1% o'r disgyblion. Mae dysgwyr yn cychwyn yn yr ysgol gyda'r ystod lawn o alluoedd, gyda 12% ohonynt ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a 6% â datganiadau o anghenion addysgol arbennig, sydd yn uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Mae gan yr ysgol uned adnoddau sydd yn darparu ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol a chyfathrebu.

Mae bron yr holl ddysgwyr o gefnir gwyn Prydeinig, er mae ychydig iawn o amrediad o leiafrifoedd ethnig. Mae llai nag 1% o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol ac ychydig iawn sydd yn siarad Cymraeg adref.

Ar hyn o bryd mae 11 dosbarth yn yr ysgol, gan gynnwys yr uned. Mae 16 o athrawon gyda chyfartaledd amser llawn o 12.6. Penodwyd y pennaeth presennol ym Mai 2001. Bu nifer o newidiadau ymhlith y staff ers yr arolygiad diwethaf yn Nhachwedd 2004 a chymhwyswyd trefniadaeth fewnol yr adeilad er mwyn creu lle ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'r uned.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Y Rofft yw £3,744, sy'n cymharu gydag uchafswm o £9,122 ac isafswm o £2,734 ar gyfer ysgolion cynradd yn Wrecsam. Mae cyllideb fesul disgybl yr ysgol y 13$^{eg}$ uchaf o'r 62 o ysgolion yn Wrecsam.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Rhagorol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn rhagorol oherwydd:

- cyflawnodd disgyblion y dosbarthiadau prif ffrwd safonau uchel iawn, yn enwedig mewn Saesneg;
- gwna'r holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag ADY a'r rhai yn yr uned, gynnydd eithriadol yn eu dysgu;
- mae ansawdd yr addysgu a'r profiadau dysgu yn rhagorol;
- fod darpariaeth ragorol ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad disgyblion;
- mae arweinyddiaeth a rheolaeth gyffredinol yr ysgol yn rhagorol; ac
- mae'r ysgol yn darparu gwerth rhagorol am arian.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwelliant pellach yn dda oherwydd:

- mae systemau da ar gyfer hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant;
- mae rhwydweithiau o arfer proffesiynol wedi eu sefydlu'n gadarn yng ngwaith yr ysgol;
- fod y partneriaethau strategol yn dda ac yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddarpariaeth gyffredinol yr ysgol;
- fod dadansoddiad manwl yn arwain at dargedau ar gyfer gwelliant sydd â ffocws pendant; ac
- mae'r systemau ar gyfer sicrhau ansawdd yn gadarn.

**Dalier Sylw:** Ni farnwyd rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwelliant i fod yn rhagorol oherwydd erys lle ar gyfer mân welliannau mewn rhai agweddau o'r ddarpariaeth, er bod y deilliannau i'r disgyblion yn rhagorol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella'r ddarpariaeth yn yr ysgol ymhellach, dylai’r pennaeth a'r llywodraethwyr:

A1 Cydymffurfio gyda gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Anghenion Arbennig ac Anabledd 2001) trwy sicrhau fod cynllun hygyrchedd priodol;

A2 Mewn cydweithrediad â'r ALl, cymryd camau i wella adeiladau ac ystafelloedd allanol y dosbarthiadau dros dro.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn cynhyrchu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion ac yn adrodd ar y cynnydd wrth ymdrin â'r rhain yn ei adroddiad blynyddol i'r rhieni.  Hefyd, gwahoddwyd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig o ddim mwy na 600 o eiriau i ddisgrifio ei harfer arloesol yn y sector.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Rhagorol |
|---|---|

**Safonau: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol uned ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau cymdeithasol a chyfathrebu a chaiff canlyniadau'r disgyblion hyn eu cynnwys yn y ffigurau a gyhoeddir. Mae hwn yn rhoi argraff wyrgam o berfformiad gwirioneddol yr ysgol, am fod y disgyblion hyn yn cyflawni safonau isel, yn enwedig mewn Saesneg, o ganlyniad i'w hanableddau. Petai canlyniadau disgyblion yr uned ddim yn cael eu cynnwys yn y ffigurau, mae perfformiad yr ysgol yn erbyn y prif ddangosyddion dros y tair blynedd diwethaf yn cymharu'n eithriadol o dda gyda rhai ysgolion mewn sefyllfaoedd tebyg a chyrhaeddiad blaenorol y disgyblion. Mewn Saesneg a gwyddoniaeth, mae cyrhaeddiad y disgyblion yn eithriadol gyda mwy na hanner y disgyblion yn cyrraedd y lefel 5 uwch ar ddiwedd Blwyddyn 6. Mae cyrhaeddiad mewn mathemateg yn uwch na'r disgwyliadau, gyda bron pob disgybl yn cyrraedd lefel 4 a lleiafrif mawr yn cyrraedd lefel 5.

Mae plant yn cychwyn yn yr ysgol gyda lefelau cyflawniad sydd yn gyffredinol uwch na'r rhai a disgwylir. Gwnânt gynnydd da yn y Cyfnod Sylfaen a Blwyddyn 2. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, mae safonau yn uwch na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol ym mhob un o'r tri phwnc craidd (Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth). Cynhaliwyd y safonau ar lefelau da am y tair blynedd diwethaf. Pan ni chynhwysir ffigurau disgyblion yr uned yn y ffigurau, mae safonau'n gyffredinol yn uwch na'r disgwyliadau. Mewn Saesneg, mae cyrhaeddiad disgyblion yn eithriadol, gyda mwy ha hanner y disgyblion yn cyrraedd y lefel 3 uwch.

Yn gyffredinol, gwna'r disgyblion gynnydd da yn y pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 2. Mae cynnydd mewn Saesneg yn eithriadol, gyda'r holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd o ddwy lefel y Cwricwlwm Cenedlaethol (CC) o leiaf ac 21% yn gwneud cynnydd o dair lefel. Nid oes unrhyw wahaniaeth ystadegol ym mherfformiad y bechgyn a'r merched, er yn 2010 perfformiodd y bechgyn yn well na'r merched mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 2. Gwna'r disgyblion sydd ag ADY gynnydd da iawn mewn perthynas â'u mannau cychwyn a'u galluoedd.

Mewn gwersi, mae disgyblion yn gyffredinol yn gwneud o leiaf cynnydd da ac mewn lleiafrif mae'r cynnydd yn rhagorol. Mae disgyblion yn amlwg yn mwynhau eu gwersi ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn y gweithgareddau a ddarperir. Maent yn cyflawni safonau uchel mewn Saesneg a mathemateg mewn gwersi ac yn defnyddio'u medrau siarad yn dda. Mae eu medrau darllen yn dda iawn ac maent yn eu defnyddio'n effeithiol wrth ymchwilio ar y rhyngrwyd, er enghraifft. Mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu'n dda i ysgrifennu cwestiynau ac i gasglu data. Mae gan ddisgyblion Blwyddyn 6 fedrau sylfaenol da mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae gan y disgyblion mwy galluog fedrau sydd wedi eu datblygu'n dda iawn. Defnyddia'r disgyblion amrediad da o strategaethau datrys problemau i weithio allan pa gwestiynau maent yn mynd i ddefnyddio fel rhan o'u hymchwiliadau mathemategol. Mae gan ddisgyblion Blwyddyn 2 fedrau da wrth ddatrys problemau. Maent yn trafod eu gwaith ac yn cynllunio sut maent yn mynd i

gyflawni eu hamcanion. Datblygant eu syniadau trwy drafodaeth ac maent yn gwerthuso eu gwaith mewn llaw.

Gwna'r disgyblion gynnydd da yn eu medrau iaith Cymraeg. Mae disgyblion yn datblygu ac yn deall geirfa gynyddol eang, maent yn medru addasu sgriptiau a chyfathrebu'n ddychmygus mewn gwersi. Ar draws yr ysgol, gwna'r disgyblion ddefnydd da o Gymraeg achlysurol. Mae disgyblion hŷn cyfnod allweddol 2 yn deall ac yn ymateb yn dda i amrediad o gyfarwyddiadau a chwestiynau syml; mae rhai yn rhoi atebion estynedig.

**Lles: Da**

Arddangosa'r disgyblion ymwybyddiaeth dda iawn o faterion iechyd a byw yn iach. Teimlant yn ddiogel a hapus yn yr ysgol. Mae ymddygiad o fewn ac o amgylch yr ysgol yn ganmoladwy. Mae bron yr holl ddisgyblion yn arddangos ymagweddau cadarnhaol i'w dysgu. Nid oes unrhyw anghysondebau o ran ymagweddau'r merched a'r bechgyn tuag at eu dysgu. Mae ganddynt ddiddordeb yn eu gwaith, yn cynnal eu canolbwyntio ac yn ymroi i'w tasgau gyda brwdfrydedd ac ymdrech. Caiff disgyblion eu hannog i fod yn gyfrifol am eu gweithredoedd eu hunain ac i fod yn gydymdeimladol i anghenion eraill. Mae 'dysgu effeithiol' yn annog y disgyblion i gymryd perchnogaeth o'u dysgu ac maent yn hyderus i wneud dewisiadau am sut a beth maent yn dysgu. Dros y tair blynedd diwethaf, mae presenoldeb wedi bod yn gyson uwch na chyfartaleddau'r ALl a'r rhai cenedlaethol.

Mae cysylltiadau'r ysgol gyda'r gymuned wedi eu datblygu'n dda ac yn nodwedd gref o'r ysgol. Mae'r cynghorau ysgol ag eco yn rhan weithredol wrth wneud penderfyniadau ac yn sicrhau y gwrandewir ar safbwyntiau'r disgyblion. Mae disgyblion yn feddylgar tuag at ei gilydd. Cânt eu hannog i rannu problemau emosiynol a rhoddir cyfleoedd iddynt ddatblygu hunan hyder a hunan barch. Mae hyn yn sicrhau amgylchedd hapus a diogel ar gyfer dysgu. Mae'r ysgol yn annog y disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned. Er enghraifft, mae'r cyngor eco ynghlwm wrth y fenter IMAGE (Gwella amgylchedd Merffordd a Gresffordd), ac wedi cynhyrchu dysglau o flodau. Mae côr yr ysgol yn perfformio mewn amrywiol ddigwyddiadau yn ogystal ag yn yr eglwysi lleol. Mae disgyblion hefyd yn rhan weithredol o glwb cinio lle maent yn gweini ciniawau i'r henoed.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Rhagorol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r profiadau dysgu'n dda gyda pheth darpariaeth ragorol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau trwy strategaethau dysgu effeithiol yn y brif ffrwd ac yn yr uned. Mae'r ysgol yn diwallu anghenion y disgyblion yn eithriadol o dda ac mae hyn yn arwain at safonau uchel. Darperir amrediad rhagorol o weithgareddau a phrofiadau cyfoethogi oddi fewn a thu allan i'r ysgol. Defnyddir dynesiad thematig wrth gynllunio pan fo'n bosibl, sydd yn galluogi medrau a gwybodaeth gael eu caffael yn eu cyd-destun.

Mae cynllunio ar gyfer medrau yn gryfder yn yr ysgol ac mae arfer sydd yn arwain y sector, a welwyd yn y ddarpariaeth ar gyfer ymestyn ysgrifennu disgyblion, yn gadarn. Caiff gwybodaeth disgyblion o'u hardal leol ei wella trwy ymweliadau sydd wedi eu cynllunio'n dda a gweithgareddau dilyn i fyny effeithiol iawn, megis

ymweliadau gan ddisgyblion cyfnod allweddol 1 i Amgueddfa Cychod Ellesmere Port, Amgueddfa Lowrie ac Erddig. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn elwa oddi wrth ymweliadau preswyl yng Nglan-llyn a Kingswood yn ogystal ag ymweliadau lleol buddiol sydd wedi eu cysylltu'n dda i'r cynlluniau gwaith. Derbynia'r disgyblion gyfleoedd rhagorol i ddatblygu eu medrau cerddorol a chwaraeon mewn clybiau ar ôl ysgol, gaiff eu mynychu'n dda.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer ymestyn medrau disgyblion yn yr iaith Gymraeg yn dda a defnyddir yr adnoddau'n effeithiol i atgyfnerthu patrymau iaith. Caiff agweddau o ddiwylliant Cymru eu cysylltu'n gryf gyda gwaith yn seiliedig ar gelf, cerddoriaeth a hanes lleol. Mae pobl chwedlonol megis Dwynwen, arlunwyr Cymreig enwog megis Kyffin Williams, cerddorion megis Cerys Mathews a phobl hanesyddol megis Owain Glyndŵr yn cyfoethogi dealltwriaeth disgyblion o'u hetifeddiaeth.

Mae'r holl athrawon yn llwyddiannus wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Rhoddir blaenoriaeth i ailgylchu, arbed ynni a gwella'r amgylchedd yn yr ysgol ac yn eu cymuned. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, derbynia'r disgyblion gyfleoedd da i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r byd ehangach.

### Addysgu: Rhagorol

Mae ansawdd yr addysgu yn rhagorol. Defnyddir amrediad rhagorol o ymdriniaethau a strategaethau addysgu. Caiff gwersi eu cydweddu'n dda iawn i anghenion disgyblion ym mhob dosbarth. Mae'r athrawon yn frwdfrydig a chaiff y disgyblion eu hysgogi a'u cymell i ddysgu ac i werthuso eu gwaith. Mae gan yr athrawon a'r cynorthwywyr dysgu berthynas ardderchog gyda disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r athrawon yn gwneud yn eglur i ddisgyblion yr hyn maent i'w ddysgu a sut caiff eu dysgu ei asesu ar ddiwedd y wers. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion. Mewn amgylchedd ddysgu cadarnhaol, mae athrawon yn hyrwyddo ac ymestyn dysgu'r disgyblion trwy ddefnyddio medrau cwestiynu effeithiol iawn. Gwna'r athrawon a'r disgyblion ddefnydd da o fyrddau gwyn rhyngweithiol fel adnodd addysgu, fodd bynnag, ar adegau, nid yw'r athrawon yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion i ddefnyddio cyfrifiaduron yn y dosbarth er mwyn cefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm.

Defnyddir asesu'n effeithiol i dracio cynnydd disgyblion ac i ddarparu tasgau ar eu cyfer bydd yn cydweddu eu hanghenion yn dda. Mae disgyblion yn fedrus wrth asesu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill. Mae'r staff wedi cymryd rhan effeithiol yn y broses o safoni a chymedroli gyda'r ysgolion yn y 'clwstwr', sydd wedi arwain at strategaethau asesu eglur. Mae'r marcio yn fanwl a rhoddir adborth o ansawdd da i'r disgyblion o ran yr hyn sydd angen iddynt wneud er mwyn gwella eu gwaith ysgrifenedig, sydd yn gyffredinol o safon uchel iawn. Mae adroddiadau blynyddol manwl a nosweithiau rhieni yn sicrhau caiff rieni eu hysbysu'n dda iawn am gynnydd eu plant.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth sydd wedi ei strwythuro'n dda iawn ar gyfer lles a hyrwyddo byw yn iach. Mae llawer o fentrau yn y cynllun ysgolion iach wedi cael effaith gadarnhaol ar hyrwyddo dulliau iachus o fyw. Mae datblygiad ysbrydol,

moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn rhagorol. Mae disgyblion yn meithrin gwerthoedd o onestrwydd a thegwch ac maent yn gwybod y gwahaniaeth rhwng da a drwg. Cânt eu hannog i gymryd cyfrifoldebau yn yr ysgol, yn enwedig ym Mlwyddyn 6. Defnyddir trafodaethau dosbarth yn effeithiol i reoli teimladau a hunan ymwybyddiaeth y disgyblion. Caiff yr addysgu o addysg bersonol a chymdeithasol ei nodweddu'n helaeth ar draws holl agweddau'r cwricwlwm, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae gweithdrefnau a pholisïau priodol yn eu lle ar gyfer diogelu'r disgyblion. Mae'r holl staff wedi eu hyfforddi'n effeithiol ac yn derbyn y gefnogaeth a'r arweiniad perthnasol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda iawn gyda'r gwasanaethau arbenigol. Cânt eu defnyddio i hyrwyddo mynediad at ystod eang o wybodaeth a chymorth ychwanegol i'r disgyblion a'u rhieni.

Darpara'r ysgol ddarpariaeth ragorol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r nodwedd hon o'r ysgol, ac yn enwedig yn yr uned, yn arwain y sector. Mae un o athrawon yr uned wedi ei chydnabod gan yr ALl fel ymarferwr rhagorol ac mae gan y llall arbenigedd rhagorol wrth gefnogi disgyblion sydd ag awtistiaeth. Ceir gweithdrefnau effeithiol iawn ar gyfer dynodi anghenion disgyblion a chaiff cymorth wedi ei dargedu ei gydweddu'n glos. Mae'r staff cynnal wedi eu lleoli'n fedrus a gwnânt gyfraniad rhagorol at gynnydd y disgyblion. O ganlyniad gwna'r disgyblion gynnydd rhagorol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hollgynhwysol lle caiff amrywiaeth ei gydnabod a'i ddathlu. Caiff disgyblion eu hannog i fyfyrio ar eu credoau a'u gwerthoedd eu hunain yn ogystal ag ar rhai pobl eraill. Mae gan y disgyblion ymagweddau cadarnhaol tuag at amrywiaeth, ac mae ethos cynhwysol yr ysgol yn gryfder arwyddocaol. Mae'r ysgol hyrwyddo cyfleoedd cyfartal yn weithredol a chaiff yr holl ddisgyblion fynediad cyfartal i bob maes o'r cwricwlwm a'r ddarpariaeth allgyrsiol. Mae'r ysgol yn cynnig amgylchedd croesawgar a diogel i'r holl ddysgwyr.

Caiff yr adeiladau a'r ystafelloedd eu cynnal a'u cadw'n dda ac maent yn ddigonol ar gyfer y nifer o ddisgyblion. Mae'r dosbarthiadau wedi eu haddurno gan arddangosfeydd ysgogol a llawn gwybodaeth sydd yn annog a chefnogi dysgu. Gwneir defnydd llawn o adnoddau, sydd yn ddigonol, o ansawdd dda ac wedi eu cydweddu'n dda i anghenion y disgyblion. Fodd bynnag, mae dau ddosbarth dros dro sydd mewn cyflwr gwael iawn ac mae angen rhai newydd i gymryd eu lle.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Rhagorol** |

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth o'r ysgol gan y pennaeth, y staff uwch a'r corff llywodraethu yn rhagorol. Mae amryw agweddau o waith yr ysgol yn arwain y sector, gan gynnwys y Cyfnod Sylfaen, y ddarpariaeth yn yr uned a'r strategaeth 'dysgu effeithiol'. Mae'r ysgol wedi hyrwyddo safonau uchel iawn yn llwyddiannus, yn enwedig mewn Saesneg. Mae'r holl staff yn rhannu gweledigaeth gyfrannol ar gyfer gwelliant ac mae'r ethos yn rhagorol ar draws yr ysgol. Mae'r monitro hynod effeithiol o'r addysgu a'r dysgu yn golygu fod cyfran arwyddocaol o'r addysgu yn ganmoladwy

ac mae'r athrawon wedi bod yn cydweithio gyda'r ALl i hyrwyddo arfer sydd yn arwain y sector mewn ysgolion eraill. Caiff yr ysgol eu rhedeg yn dda iawn o ddydd i ddydd ac mae'r gweithdrefnau gweinyddol yn rhedeg yn esmwyth.

Gwna'r corff llywodraethu gyfraniad da tuag at redeg yr ysgol trwy amrediad da o bwyllgorau priodol sydd yn goruchwylio gwaith yr ysgol yn effeithiol. Dengys y llywodraethwyr benderfyniad wrth herio a chefnogi'r rheolaeth broffesiynol i beri'r gwelliannau angenrheidiol. Caiff yr holl bolisïau a'r gofynion cyfreithiol eu gweithredu'n gyson. Fodd bynnag, nid yw'r corff llywodraethu yn diwallu gofynion cyfreithiol y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd o ran cael cynllun hygyrchedd addas mewn lle.

Rhydd yr ysgol ystyriaeth dda o fentrau lleol a chenedlaethol. Mae wedi gwneud cynnydd rhagorol wrth weithredu'r Cyfnod Sylfaen ac wedi ei defnyddio gan yr ALl fel enghraifft o arfer sydd yn arwain y sector. Mae gweithredu'r 'fframwaith sgiliau' yn mynd yn ei flaen yn dda iawn ac mae'r disgyblion yn llwyr ymwybodol o'r medrau allweddol maent yn eu defnyddio mewn gwersi.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer sicrhau gwelliant o ansawdd yn dda. Mae hunan arfarnu a chynllunio datblygol yn rhan reolaidd o fywyd gwaith yr ysgol. Ceir ffocws da ar ddynodi blaenoriaethau ar gyfer gwelliant, monitro'r ddarpariaeth ac asesu deilliannau i ddisgyblion. Mae'r gweithdrefnau yn drwyadl ac yn cynnwys holl agweddau o weithgareddau'r ysgol. Caiff yr ysgol ei rheoli'n effeithiol ar sail asesiad cywir o'i chryfderau a'u gwendidau. Mae rheolwyr yn defnyddio gwybodaeth o'r broses hunan arfarnu i osod y blaenoriaethau perthnasol a thargedau heriol ar gyfer gwelliant.

Mae'r ysgol wedi delio'n llwyddiannus gyda'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf. Mae'r cynllunio ar gyfer y medrau allweddol bellach yn dda iawn a chaiff ei ddynodi'n eglur yn yr holl gynlluniau gwers. Mae gan athrawon ddealltwriaeth well o lefelau'r CC ac wedi cynhyrchu portffolios defnyddiol o waith wedi ei lefelu er mwyn eu helpu yn hyn o beth. Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gynyddol dda o'r hyn sydd angen iddynt wneud er mwyn gwella eu gwaith. Mae'r cyfathrebu gyda'r rhieni wedi gwella ac mae'r rhan fwyaf o rieni yn datgan eu bod bellach yn gwybod pa mor dda yw cynnydd eu plant.

Mae nifer o gymunedau dysgu proffesiynol yn yr ysgol ac maent yn helpu gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Caiff staff eu cefnogi'n dda iawn gan system effeithiol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Mae gan yr ysgol hefyd gysylltiadau cryf gyda'r clwstwr o ysgolion lleol ac mae wedi rhedeg sesiynau hyfforddiant amrywiol, yn ogystal â chyfranogi mewn hyfforddiant a drefnir gan ddarparwyr eraill.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau'n dda. Mae disgyblion yn elwa oddi wrth amrediad eang o strategaethau sydd yn denu cymorth rhieni wrth ffocysu ar safonau cyflawniad a lles y disgyblion. Mae'r ysgol yn ymgynghori gyda'r rhieni ar amrediad eang o gyfleoedd arweiniad ac arferion. Derbynia'r rhieni ystod dda o wybodaeth am waith yr ysgol a chynnydd eu plant. Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gyda phartneriaid i gynllunio a rheoli'r ddarpariaeth. Mae gan yr ysgol gysylltiadau da gydag amrediad o gyflogwyr

lleol ac mae wedi sefydlu mentrau gyda sefydliadau allanol sydd yn helpu codi disgwyliadau'r disgyblion. Mae'n elwa oddi wrth gysylltiadau cadarn gyda Phrifysgol Bangor, colegau ac ysgolion uwchradd lleol ac amrediad o wasanaethau cymorth. Mae gan yr ysgol gysylltiadau helaeth gyda'i ysgolion partner ac uwchradd ac mae wedi sefydlu trefniadau pontio effeithiol sydd yn galluogi'r disgyblion i ymgartrefu'n gyflym a hyrwyddo dilyniant yn y dysgu a'r lles. Gwna'r ysgol ddefnydd da o wybodaeth i sicrhau lles i ddisgyblion ar sail eu hanghenion unigol. Mae'r ysgol wedi defnyddio'r gymuned, yr ardal fusnes leol a sefydliadau chwaraeon yn effeithiol fel adnodd i ymestyn y profiadau dysgu i'r disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol strategaethau effeithlon ac effeithiol mewn lle ar gyfer rheoli staff ac adnoddau. Caiff staff eu lleoli'n ddoeth er mwyn gwneud y defnydd gorau o'u harbenigedd a'u profiad. Mae trefniadau priodol ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu i athrawon, ond mae'r monitro ffurfiol o hyn ar gyfnod cynnar o'u ddatblygiad. Caiff cynorthwywyr addysgu eu defnyddio'n effeithlon iawn ar draws yr ysgol a gwnânt gyfraniad rhagorol at ddysgu a lles y disgyblion. Mae'r ysgol wedi eu hadnoddu'n dda iawn a chaiff ei defnyddio'n llwyddiannus i sicrhau'r profiadau dysgu gorau posibl i'r plant.

Caiff y cyllid eu rheoli'n eithriadol o dda ac mae penderfyniadau gwariant wedi eu cydweddu'n glos i flaenoriaethau'r ysgol. Mae'r corff llywodraethu yn rhan weithredol o gynllunio'r gyllideb. Maent yn cwrdd yn rheolaidd i adolygu a chynllunio gwariant. Rhoddir ystyriaeth gofalus i oblygiadau hir dymor. Rhydd yr ysgol werth rhagorol am arian yn nhermau deilliannau i ddisgyblion a'i defnydd o ariannu.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad randdeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'r holl rieni yn datgan eu bod yn fodlon â'r ysgol a bod eu plant yn mwynhau eu haddysg. Creda'r holl rieni fod yr ysgol yn gofalu am eu plant yn dda a chânt eu cadw'n ddiogel. Roedd ychydig o rieni'n teimlo nad oedd gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn roedd y disgyblion yn dysgu yn yr ysgol ac roedd nifer yn llai yn teimlo nad oedd digon o dripiau ysgol. Barn yr arolygwyr oedd bod maint ac amrediad y gwaith cartref yn briodol. Roeddent hefyd o'r farn fod yr ymweliadau yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at brofiadau dysgu'r disgyblion.

### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Dywed yr holl ddysgwyr eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod yr athrawon yn eu helpu i ddysgu'n dda. Dywed y rhan fwyaf eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol ac yn gwybod beth i wneud petaent yn cael eu gwaith yn anodd. Dywed lleiafrif nad oedd rhai plant yn ymddwyn yn dda mewn gwersi nac ar y buarth a ni ddelir â bwlian yn effeithiol ar bob achlysur. Canfu'r tîm fod y dysgwyr yn cyfeirio at ychydig o ddisgyblion yn yr uned, sydd bellach wedi gadael yr ysgol, ond oedd wedi achosi rhai problemau yn y gorffennol. Bellach nid yw ymddygiad yn llai na da a delir yn effeithiol gyda bwlian.

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Stephen Dennett | Arolygydd Cofnodol |
| Audrey Evans | Arolygydd Tîm |
| Helen Adams | Arolygydd Lleyg |
| Andrew Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Geraint Morris | Enwebai'r Ysgol |

**Contractwr:** EPPC-Severn Crossing Cyf
Swît F2A, Tŷ Britannic, Llandarsi, Castell-nedd SA10 6JQ

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |